OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2394

## Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2010

**Gorfodi ac awdurdodau cymwys**

**4.**—(1) Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod bwyd o fewn ei ardal a phob awdurdod iechyd porthladd o fewn ei ddosbarth i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn, Rheoliad y Comisiwn a Rheoliad y Comisiwn 124/2009.

(2) Yr awdurdod cymwys at ddibenion—

(a) Erthygl 2(2) (cyfiawnhau gan weithredwyr busnes bwyd ffactorau crynodi neu wanedu), a

(b) Erthygl 1(1) o Reoliad y Comisiwn 124/2009 (sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i ymchwilio i'r rhesymau dros yr halogiad),

yw'r awdurdod y mae dyletswydd arno i orfodi o dan baragraff (1).